

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudfil Hysbysiad Preifatrwydd PROSES DERBYNIADAU YSGOLION

Cafodd yr hysbysiad hwn ei ysgrifennu yn unol â Rheoliadau GDPR a deddfwriaeth berthnasol.

## Y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

**Lisa Richards** – Swyddog Diogelu Data

**Sam Bishop** – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

**Rebecca Walsh** – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,  
CF47 8AN

Data.Protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**MERTHYR TUDFUL**  
**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council

Dyddiad crëwyd:	25 Mai 2018
Adran â Chyfrifoldeb:	Adran Addysg
Rheolwr â Chyfrifoldeb:	Sarah Bowen
Cyfeiriad:	Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4TQ

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth am sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu a phrosesu'ch data personol pan fydd y Tîm Derbyn i Ysgolion yn derbyn ffurflen derbyn i ysgol un ai ar-lein neu ar fformat papur oddi wrth rieni sydd am gofrestru eu plentyn ar gyfer lle yn un o'n hysgolion.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn cadw ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Mae'n ofynnol ein bod ni o dan ddeddfwriaeth diogelu data yn eich hysbysu chi o'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nid yw'r hysbysiad hwn yn ffurfio rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Mae'n bosib y byddwn yn diweddarau'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg ac os byddwn yn gwneud hynny byddwn yn sicrhau fod copi wedi ei ddiweddarau o'r hysbysiad hwn ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Y mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â'n Polisi Safonau Preifatrwydd a hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth fanwl am sut yr ydym yn prosesu data a chael mynediad at ar ein gwefan.

Mae'r hysbysiad hwn yn benodol berthnasol i sut mae'r Tîm Derbyniadau Ysgolion yn cefnogi ysgolion a rhieni gyda'r broses derbyn i ysgolion.

Mae'r broses Derbyniadau Cyn Meithrin a Meithrin yn cynnwys derbyn i'n darpariaeth Feithrin. Yr amser priodol i gofrestru manylion eich plentyn yw pan fydd yn ddwy flwydd oed. Mae ceisiadau'n cael eu gwneud drwy gwlhau ffurflen gais cyn meithrin a meithrin. Gellir dod o hyd i fanylion o Broses Derbyniadau Meithrin y Cyngor yn adran derbyniadau cyn meithrin a meithrin ein gwefan. Mae'r broses Derbyniadau Cynradd yn cynnwys mynediad i ddsbarth derbyn ac yn dechrau ym mis Medi ar ôl cyflwyno ceisiadau, hyd At ddiwedd Rhagfyr ac yna'r caiff y dyraniad terfynol o leoedd eu cyflwyno ym mis Ebrill.

Mae'r broses derbyniadau i ysgolion uwchradd yn cynnwys derbyn i flwyddyn 7 yn dechrau ym mis Medi hyd at fis Rhagfyr. Caiff dyraniad y lleoedd ei gyflwyno i chi ym mis Mawrth.

Mae'r broses Derbyniadau Ganol Tymor yn cynnwys yr holl blant sy'n symud drwy'r flwyddyn ysgol, ar draws yr holl grwpiau blwyddyn.

Rydym yn gweithio i sicrhau fod pob plentyn yn cael cynnig lle sy'n addas i'w oedran, gallu a'i anghenion.

## 1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr sy'n gyfrifol am eich data personol. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau, a gellir gweld manylion amdanynt ar ein gwefan. Yn yr hysbysiad hwn pan fyddwn yn cyfeirio at yr adran, rydym yn cyfeirio at y Tîm Derbyniadau i Ysgolion sy'n gyfrifol am brosesu eich data a fydd yn glir i chi pan fyddwch yn defnyddio'r gwasanaeth hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn gymwys i blant, pobl ifanc a'u rhieni/gwarcheidwaid sy'n cyflwyno ffurflenni cais i'r Tîm Derbyniadau i Ysgolion, sy'n cynnwys plant a phobl ifanc o oedran ysgol a'r rheini a fydd yn dechrau darpariaeth gyn meithrin neu feithrin yn ystod y tymor ar ôl eu trydydd pen blwydd.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu ag ef gan ddefnyddio'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

E-bost: [data.protection@merthyr.gov.uk](mailto:data.protection@merthyr.gov.uk)

Ffôn: 01685 725000

## 2. Y DATA A GASGLWN AMDANOCH CHI

Mae'n bosibl y byddwn yn casglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi fel y canlynol:

Eich gwybodaeth bersonol fel eich enw, cyfeiriad, manylion cyswllt, gwybodaeth bersonol eich plentyn fel enw, cyfeiriad, dyddiad geni, enw a dyddiad geni unrhyw frawd neu chwaer sydd eisoes yn mynychu'r ysgol ddewisol, manylion cofrestru fel sy'n cael eu cynnwys yn y ffurflen gais.

Gwybodaeth addysgiadol fel ysgol gyfredol eich plentyn (os yw'n gymwys), gwybodaeth am ysgol ddewisol a rhesymau'r rhieni dros ei dewis, derbyniadau ychwanegol sy'n berthnasol i'r wybodaeth yr ydych wedi ei darparu yn uniongyrchol i'ch ysgol ddewisol fel presenoldeb mewn ysgol eglwys benodol, ysgol cyfrwng Cymraeg, manylion am dueddfryd eich plentyn, gwybodaeth am bresenoldeb.

Statws Cynllun Iechyd a Gofal Addysg a manylion am unrhyw Angen Addysgiadol Arbennig, hefyd, gallai hyn gynnwys statws plant sy'n derbyn gofal a gorchymyn gwarchod arbennig neu hanes trefniant plentyn.

Data geowagle sy'n berthnasol i fanylion am eich lleoliad ac a ydych yn preswyllo yn

ardal dalgylch eich ysgol ddewisol.

Data ffordd o fyw fel ethnigrwydd, crefydd, neu a yw eich plentyn yn uniaethu ei hun fel un sy'n dod o gefndir Teithiwr Sipsi Roma.

Gwybodaeth feddygol a allai gynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch iechyd corfforol neu iechyd meddwl. Bydd hyn hefyd yn cynnwys a yw eich plentyn yn cymryd meddyginiaeth ar bresgripsiwn a manylion am ei gyflwr meddygol cyfredol.

Rydym yn esbonio'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data hwn amdanoch chi yn adran 3 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

### **3. SUT YR YDYM YN DEFNYDDIO'CH DATA PERSONOL**

Cyn dechrau'r broses derbyniadau i ysgolion bydd yr Adran yn derbyn gwybodaeth sylfaenol oddi wrth Adran y Cofrestrydd er mwyn dechrau proses dyrannu cynnar i sicrhau fod digon o leoedd ar gael oddi fewn i'n meithrinfa a'n lleoliadau ysgol gynradd.

Rydym yn defnyddio'n Ffurflenni Derbyniadau i Ysgolion ar-lein a phapur i galsgu data personol eich plentyn. Caiff y ffurflenni hyn eu cwblhau gennych chi, y rhiant/ gwarcheidwad. Gallem hefyd dderbyn gwybodaeth oddi wrth darparydd blynyddoedd cynnar eich plentyn neu o'i ysgol gyfredol os ydym ni'n ystyried derbyn ganol tymor. Caiff y wybodaeth a gesglir ei defnyddio i ddynodi lle ysgol i'ch plentyn ar gyfer y flwyddyn ysgol ganlynol drwy'r broses derbyniadau a gydlynir.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei darparu i gefnogi'r broses ymgeisio am dderbyniadau a dyrannu lle ysgol i'ch plentyn. Mae hyn hefyd yn cynnwys y broses apeliadau os yw'n gymwys.

Caiff y wybodaeth hon ei chadw ar gronfa ddata Capita SIM yr Adran Addysg yn unol â newid i amgylchiadau'r plentyn.

Dim ond pan fydd y gyfraith yn ein caniatáu ni i wneud hynny y byddwn yn defnyddio eich data personol. Bydd hyn yn cynnwys y darpariaethau a osodwyd allan yn Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data a ble y bo'n berthnasol Deddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol o dan yr amgylchiadau canlynol:

Pan fydd angen i ni gydymffurfio â'n hobygiadau cyfreithiol o dan y cyfreithiau canlynol:

Deddf Addysg 2002

Cod Derbyniadau i Ysgolion 2013

Cod Apeliadau Derbyniadau i Ysgolion 2013.

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

Mae dyletswydd arnom i atal a datgelu twyll, i sicrhau fod y broses derbyniadau i ysgolion yn cael ei weinyddu'n deg ac i atal pobl rhag gwneud cais am leoedd nad oes hawl ganddynt wneud, y tu allan i'r ardal ddalgylch er enghraifft neu ble y ceir pryder dros breswylfa barhaol plentyn mae'n bosibl y byddwn yn gwirio yn erbyn cofnodion Cyngor arall, fel y Dreth Gyngor.

Rydym yn casglu a defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i gyflawni tasgau er budd y

cyhoedd sy'n berthnasol i ddarparu gwasanaethau cefnogi addysg neu ble yr ydym yn defnyddio data personol i gyflawni ein dyletswyddau ym maes cyfraith diogelu cymdeithasol.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn prosesu eich data personol pan y fo'n angenrheidiol er ein buddion cyfreithiol (neu rai trydydd parti) a'ch buddion chi a'ch hawliau sylfaenol chi nad ydynt yn trechu'r buddion hynny.

#### **4. SUT YR YDYM YN RHANNU EICH DATA PERSONOL**

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data personol ar draws yr Adran Addysg er mwyn darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch, byddwn hefyd yn rhannu eich data yn fewnol ar draws adrannau eraill y Cyngor, a allai gynnwys:

Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant  
Refeniw a Budd-daliadau sy'n cynnwys y Dreth Gyngor  
Archwiliad Mewnol  
Cofrestryddion  
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu  
Adran Llesiant Cymunedol  
Darpariaeth Dechrau'n Deg

Bydd hefyd yn ofynnol i ni rannu data personol eich plentyn pan fyddwch yn cyflwyno apêl swyddogol. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth a anfonwyd i mewn fel tystiolaeth gyda'r Panel Apeliadau sy'n cynnwys 3-5 person yn cynnwys gweithiwr proffesiynol, cynrychiolydd addysg a pherson lleyg.

Gallir hefyd cael achlysuron pan fo'n ofynnol i ni rannu eich data personol â thrydydd parti allanol sy'n cynnwys:

Eich ysgol ddewisol yn ôl yr hyn a ddynodwyd ar eich ffurflen dderbyniadau.  
Sefydliadau partner fel meddygon, pediatryddion, therapyddion iechyd a gweithwyr iechyd meddwl.  
Hyb Diogleu Aml Asiantaethol Cwm Taf ( a elwir yn MASH) os oes gennym unrhyw bryderon ynghylch diogelwch eich plentyn neu ddiogelwch eraill o'ch cwrpas chi neu eich plentyn.

Gellir hefyd gael achlysuron pan fydd yn angenrheidiol rhannu gwybodaeth â'r Heddlu, Gorchymyn Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn ar-lein ac Adrannau Llywodraeth Ganolog e.e. y Swyddfa Gartref. Gwnawn hyn er mwyn diogleu llesiant plant a sefydlu statws mewnfudiad.

Byddwn yn rhannu setiau cyflawn o ddata personol dienw, ystadegol mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil a dadansoddi ystadegol a berfformiwyd er mwyn gwella'r gwasanaethau addysg a ddarperir i bobl yng Nghymru.

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wledydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Os fyddwn yn gwneud hynny byddwn yn eich hysbysu cyn gynted â phosibl a gallwch ddisgwyl yr un faint o ddiogelwch mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

## 5. AM BA MOR HIR FYDDWN NI'N DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am gyhyd ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion y'i casglwyd ar eu cyfer yn unig, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd yn ôl. Caiff y wybodaeth bersonol a gasglwyd yn unol â'r prosesu a fanylwyd yn yr hysbysiad hwn ei chadw o ddyddiad geni'r plentyn neu berson ifanc nes iddo gyrraedd 25 oed, ac eithrio gwybodaeth Datganiad o Anghenion Addysg a gaiff ei chadw am 35 mlynedd ac ar ôl hynny caiff y wybodaeth ei harchifo neu ei dinistrio'n ddiogel. Caiff copïau papur o'r ffurflenni derbyniadau eu cadw am 7 mlynedd ar ôl iddynt gael eu sganio'n electronig i'n systemau cyfrifiadur.

Mae manylion am gyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan ([www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk)).

## 6. SUT FYDDWN NI'N CADW EICH DATA PERSONOL YN DDIOGEL

Rydym wedi gweithredu mesurau diogelwch priodol i atal eich gwybodaeth bersonol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol, rhag cael ei defnyddio neu rhag bod mynediad ati mewn modd diawdurdod, neu ei haddasu neu ddatgelu. Yn ychwanegol, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogeion hynny sydd ag angen busnes i wybod. Dim ond yn dilyn ein cyfarwyddyd ni y byddant yn prosesu eich gwybodaeth bersonol ac maen nhw'n amodol ar ddyletswydd o gyfrinachedd.

Rydym wedi gosod polisiau a gweithdrefnau yn eu lle i ddelio ag unrhyw dorcyfraith o ran diogelu a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys o dorcyfraith honedig pan fydd yn gyfreithiol ofynnol i ni wneud hynny.

## 7. HAWLIAU CYFREITHIOL

O dan rai amgylchiadau, mae gennych hawliau dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol gan gynnwys yr hawl i dderbyn copi o'r data personol yr ydym yn ei gadw andanoch chi caiff yr hawliau hyn eu manylu yn yr hysbysrwydd preifatrwydd cyflawn. Mae gennych hefyd yr hawl i gwyno ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwylol y DU ar gyfer materion diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2<sup>il</sup> Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: [casework@ico.org.uk](mailto:casework@ico.org.uk)

Ffôn: 029 2067 8400

## 8. MANYLION PELLACH

Os ydych chi'n chwilio am ragor o wybodaeth am sut yr ydym yn prosesu eich data personol yn cynnwys diogelu data, cadw data a gwybodaeth bellach am ein sail gyfreithiol i brosesu, mynnwch weld ein polisi preifatrwydd cyflawn. Gallwch hefyd gael gwybodaeth yn uniongyrchol o wefan y Swyddog Comisiynu Gwybodaeth, [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk).